Waliau Dringo

Waliau Dringo dan yng Ngogledd Cymru

Mae yna nifer o waliau dringo dan do ardderchog yng Ngogledd Cymru i adeiladu cryfder boldro a pharatoi eich hunan ar gyfer y llinell prosiect mawr nesaf.

Wal Indy (Llanfair PG)
https://www.facebook.com/indyclimbingwall
Mae Wal Indy wedi ei leoli ar ymyl Afon Menai ger y ganolfan filwrol Indefatigable yn Llanfair PG. Mae'n enwog am ei awyrgylch hamddenol cyfeillgar a hefyd y safon uchel o setio'r problemau. Mae proffiliau'r paneli ar y clogfaen cystadleuaeth ganolog drawiadol yn berffaith ac yn ymddangos ansawdd y problemau a osodwyd. Mae yna hefyd wal resin crwm 'hen ysgol' gyda rhai nodweddion ysblennydd. Ar yr ochr hyfforddi maent wedi cynllunio sefydliad da o fwrdd bys a bwrdd campws. Nid yw'r waliau arweiniol yn rhy uchel (hy llai na 10m), ond mae ystod dda o onglau ac adran resin crwm.

Canolfan Dringo'r Beacon (Caernarfon)
http://www.beaconclimbing.com
Y wal ddringo fwyaf yng Ngogledd Cymru wedi'i lleoli yng Nghaernarfon. Mae'r waliau arweiniol trawiadol yn cynnig llawer o gyfleoedd i gyrraedd y pwmp, ond maent hefyd wedi darparu'n dda er mwyn dringo ddi-raff hefyd. Mae amrywiaeth fawr o boldro yma gyda nifer o ystafelloedd yn cynnig nodweddion ac onglau gwahanol. Mae hyd yn oed to arddull Ogof Parisella gyda rhai problemau/dringfeydd wyneb i waered hir iawn. Hefyd ceir ystafell hyfforddi fechan gyda bwrdd system a bwrdd peg, yn ogystal â byrddau campws/bys a chylchoedd gampfa.

Plas y Brenin (Capel Curig)
http://www.pyb.co.uk/facilities-detail.php?id=6

Yn ddwfn yng nghanol Gogledd Eryri ceir ganolfan hyfforddi mynydd Plas y Brenin yng Nghapel Curig. Adeiladwyd yn 1993, a hwn oedd y cyntaf o'r waliau arddull fodern i gael ei sefydlu yn yr ardal. Er gwaethaf ei henaint mae'r bwa boldro resin crwm yn dal yn ddarpar boldro gwych. Mae'r newidiadau ongl yn rhoi llawer o nodweddion rhagorol a theimladau rhyfeddol o realistig i'r dringo. Mae yna hefyd wal arweiniol fach gyda fertigol a rhannau serthach a chwyddedig.

Y Stafell-fwrdd (Queensferry) http://www.theboardroomclimbing.com
Wal a sefydlwyd yn ddiweddar yng ngogledd ddwyrain Cymru, yn agos at y ffin â Lloegr. Mae cymysgedd da o boldro a waliau arweiniol, yn ogystal â nifer o nodweddion diddorol eraill, er enghraifft y Psicobloc. Mae'r nodwedd unigryw hon, gyda phroffil uchel a serth iawn; sy'n ceisio ailadrodd y teimlad Solo Dŵr Dwfn (yn lle tasgu i lawr yn y môr rydych yn glanio mewn matiau ychwanegol o ddwfn). Mae yna ardal hyfforddi gyda'r amrywiaeth o fyrddau bys, campws a system arferol, yn ogystal â chylchoedd gampfa ac uned aml-gampfa fach hefyd.

Y Wal Ddringo (Harlech) http://www.harlechclimbingwall.com
Mae'r pwyslais ar y wal dan do hon yn bennaf ar ddringo gyda rhaff, ond mae rhywfaint o boldro gwerth chweil i'w gael mewn ardal benodedig fach.